



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 646 (Cy. 120)

2018 No. 646 (W. 120)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion
Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid
Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018**

**The Animal By-Products and Pet
Passport (Fees) (Wales) Regulations
2018**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ym maes iechyd anifeiliaid.

These Regulations, which apply in relation to Wales, set out fees payable to the Welsh Ministers in the field of animal health.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod ffioedd yn daladwy gan weithredwyr sefydliadau a gweithfeydd y mae'n ofynnol eu cymeradwyo a'u harolygu o dan Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliedig nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl (OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 1). Nodir y ffioedd hyn yn yr Atodlen.

Regulation 4 provides that fees are payable by operators of establishments and plants that are required to be approved and inspected under Regulation (EC) No. 1069/2009 of the European Parliament and of the Council laying down health rules as regards animal by-products and derived products not intended for human consumption (OJ No. L 300, 14.11.2009, p. 1). These fees are set out in the Schedule.

Pennir bod y ffioedd yn 50% o swm adennill cost lawn y costau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt yn y cyfnod hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019 (ac eithrio amser teithio i fangroedd, sy'n cynrychioli'r swm adennill cost lawn o'r dechrau), ac yna pennir eu bod yn 100% o'r swm adennill cost lawn wedi hynny.

The fees are set at 50% of the full cost recovery of costs incurred by the Welsh Ministers in the period up to and including 30 June 2019 (with the exception of travel time to premises which represents full cost recovery from the outset), and then set at 100% of the full cost recovery thereafter.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 5 yn daladwy mewn cysylltiad â danfon pasbortau anifeiliaid anwes i filfeddygon awdurdodedig at ddiben dyroddi pasbort anifail anwes er mwyn galluogi ci, cath neu ffured i deithio dramor gyda'i berchennog neu ei pherchennog.

The fees in regulation 5 are payable in respect of the delivery of pet animal passports to authorised veterinarians for the purpose of the issuing of a pet passport to enable a dog, cat or ferret to travel abroad with its owner.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2018 Rhif 646 (Cy. 120)

2018 No. 646 (W. 120)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion
Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid
Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018**

**The Animal By-Products and Pet
Passport (Fees) (Wales) Regulations
2018**

Gwnaed 22 Mai 2018
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 30 Mai 2018
Yn dod i rym 30 Mehefin 2018

Made 22 May 2018
Laid before the National Assembly for Wales
30 May 2018
Coming into force 30 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion gwneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) (“Deddf 1972”) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i ddehongli cyfeiriadau at offerynnau’r UE yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y’u diwygir o bryd i’w gilydd.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of making Regulations under section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) (“the 1972 Act”) in relation to the common agricultural policy of the European Union. These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the 1972 Act and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to EU instruments in these Regulations to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by—

- (a) adran 2(2) o Ddeddf 1972(3), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi; a
- (b) adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(4).

- (a) section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the 1972 Act(3); and
- (b) section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973 and now vested in them(4).

(1) O.S. 2010/2690.

(2) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o’r Atodlen iddi.

(3) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(4) 1973 p. 51. Diwygiwyd is-adran (1) gan erthygl 6(1)(e) o O.S. 2011/1043. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(1) S.I. 2010/2690.

(2) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51), and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).

(3) Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006.

(4) 1973 c. 51. Subsection (1) was amended by S.I. 2011/1043, article 6(1)(e). The Welsh Ministers may exercise this power by virtue of section 59(5) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Yn unol ag adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973, mae'r Trysorlys yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgilynhychion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Mehefin 2018.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae “cymeradwyaeth” a “cymeradwyo” (“*approval*”) yn cynnwys cymeradwyaeth amodol o dan Erthygl 44(2) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

ystyr “milfeddyg” (“*veterinary surgeon*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yng nghofrestr y milfeddygon a gedwir o dan Ddeddf Milfeddygon 1966(1);

ystyr “Rheoliad Rheolaeth yr UE” (“*EU Control Regulation*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgilynhychion anifeiliaid a chynhyrchion deilliedig nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002(2);

ystyr “swyddog milfeddygol” (“*veterinary officer*”) yw milfeddyg a gyflogir gan Weinidogion Cymru.

Ad-dalu ffioedd

3. Os caiff unrhyw gais y mae ffi yn daladwy ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn ei dynnu yn ôl cyn y penderfynir ar y cais, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu i'r ceisydd unrhyw gyfran o unrhyw ffi a dalwyd mewn cysylltiad â'r cais hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn rhesymol, gan roi sylw i unrhyw gostau rhesymol yr aeth Gweinidogion Cymru iddynt mewn cysylltiad â'r cais.

In accordance with section 56(1) of the Finance Act 1973, the Treasury consents to the making of these Regulations.

Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Animal By-Products and Pet Passport (Fees) (Wales) Regulations 2018. They apply in relation to Wales and come into force on 30 June 2018.

Interpretation

2. In these Regulations—

“approval” (“*cymeradwyaeth*” and “*cymeradwyo*”) includes a conditional approval under Article 44(2) of the EU Control Regulation;

“EU Control Regulation” (“*Rheoliad Rheolaeth yr UE*”) means Regulation (EC) No. 1069/2009 of the European Parliament and of the Council laying down health rules as regards animal by-products and derived products not intended for human consumption and repealing Regulation (EC) No. 1774/2002(1);

“veterinary officer” (“*swyddog milfeddygol*”) means a veterinary surgeon employed by the Welsh Ministers;

“veterinary surgeon” (“*milfeddyg*”) means a person registered in the register of veterinary surgeons kept under the Veterinary Surgeons Act 1966(2).

Refund of fees

3. If any application for which a fee is payable under these Regulations is withdrawn before determination of the application, the Welsh Ministers must refund to the applicant such proportion of any fee paid in respect of that application as the Welsh Ministers think reasonable, having regard to any reasonable costs incurred by the Welsh Ministers in connection with the application.

(1) 1966 p. 36. Diwygiwyd adran 2 gan erthygl 12 o O.S. 2003/2919, a pharagraff 1 o'r Atodlen iddo; a chan erthygl 2 o O.S. 2008/1824, a pharagraff 2(a) a (b) o'r Atodlen iddo.

(2) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) Rhif 1385/2013 (OJ Rhif L 354, 28.12.2013, t. 86).

(1) OJ No. L 300, 14.11.2009, p. 1, as last amended by Council Regulation (EU) No. 1385/2013 (OJ No. L 354, 28.12.2013, p. 86).

(2) 1966 c. 36. Section 2 has been amended by article 12 of, and paragraph 1 of the Schedule to, S.I. 2003/2919; and by article 2 of, and paragraph 2(a) and (b) of the Schedule to, S.I. 2008/1824.

Sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion deilliedig

4.—(1) Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am geisiadau mewn cysylltiad â gweithgareddau cymeradwyo o dan Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE i'w pennu yn unol â Thabl 1 o'r Atodlen.

(2) Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gweithgareddau arolygu o dan Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE i'w pennu yn unol â Thabl 2 o'r Atodlen.

(3) Mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen yr un ystyr ag yn Rheoliad Rheolaeth yr UE.

Pasbortau anifeiliaid anwes: ffioedd

5.—(1) Y ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru gan filfeddyg awdurdodedig am swp o 20 dogfen adnabod wag yw £56.

(2) Codir cost postio a phecynnu ar y milfeddyg awdurdodedig—

- (a) pan na fo'r dogfennau adnabod yn cael eu casglu yn bersonol;
- (b) pan fo'r milfeddyg awdurdodedig yn gofyn i'r dogfennau adnabod gael eu hanfon drwy'r post.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “dogfen adnabod” (“*identification document*”) yw dogfen sydd i'w dyroddi a'i llenwi gan filfeddyg awdurdodedig yn unol ag Erthygl 22 o Reoliad (EU) Rhif 576/2013 ar gyfer symud anifeiliaid anwes o fewn yr UE; ac

ystyr “milfeddyg awdurdodedig” (“*authorised veterinarian*”) yw milfeddyg y mae Gweinidogion Cymru wedi ei awdurdodi i gyflawni tasgau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 576/2013(1).

Animal by-products and derived products

4.—(1) The fees payable to the Welsh Ministers for applications in connection with approval activities under Articles 24 and 44 of the EU Control Regulation are to be determined in accordance with Table 1 of the Schedule.

(2) The fees payable to the Welsh Ministers in connection with inspection activities under Article 45 of the EU Control Regulation are to be determined in accordance with Table 2 of the Schedule.

(3) Expressions used in the Schedule have the same meaning as in the EU Control Regulation.

Pet passports: fees

5.—(1) The fee payable by an authorised veterinarian to the Welsh Ministers for a batch of 20 blank identification documents is £56.

(2) The authorised veterinarian is to be charged the cost of postage and packaging where—

- (a) the identification documents are not collected in person;
- (b) the authorised veterinarian asks for the identification documents to be sent by post.

(3) In this regulation—

“authorised veterinarian” (“*milfeddyg awdurdodedig*”) means a veterinary surgeon who has been authorised by the Welsh Ministers to carry out tasks in accordance with Regulation (EU) No. 576/2013(1); and

“identification document” (“*dogfen adnabod*”) means a document for issue and completion by an authorised veterinarian pursuant to Article 22 of Regulation (EU) No. 576/2013 for the movement of pet animals within the EU.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
22 Mai 2018

Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
22 May 2018

(1) OJ Rhif L 178, 28.6.2013, t. 1.

(1) OJ No. L 178, 28.6.2013, p. 1.

Tabl 1

Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr sefydliad neu weithfa am gais i gael cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol o dan Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<i>Gweithgaredd</i>	<i>Ffi (£) hyd at a chan gynwys 30 Mehefin 2019</i>	<i>Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019</i>
Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126
Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn	14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84	14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84
Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol at ddiben gweithgareddau a nodir yn y Tabl hwn ar ôl 60 munud cyntaf ymweliad safle er mwyn asesu addasrwydd i gael cymeradwyaeth	8 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) at ddiben gweinyddu ymweliadau atodol a gweithgareddau cysylltiedig	3 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	6 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
Ffi weinyddol atodol am gyflwyno anfonebau am ymweliadau atodol neu weithgareddau cysylltiedig	7 am bob anfoneb	13 am bob anfoneb

Table 1

Fees payable by the operator of an establishment or plant for an application for approval or conditional approval under Articles 24 and 44 of the EU Control Regulation

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
<i>Activity</i>	<i>Fee (£) up to and including 30 June 2019</i>	<i>Fee (£) after 30 June 2019</i>
Time spent by a veterinary officer travelling to and from premises for the purpose of activities in this Table	21 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 126	21 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 126
Time spent by an officer of the Welsh Ministers (other than a veterinary officer) travelling to and from premises for the purpose of activities in this Table	14 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 84	14 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 84
Time spent by a veterinary officer for the purpose of activities identified in this Table after the first 60 minutes of a site visit to assess suitability for approval	8 per quarter hour or part quarter hour spent	16 per quarter hour or part quarter hour spent
Time spent by an officer of the Welsh Ministers (other than a veterinary officer) for the purpose of administration of additional visits and connected activities	3 per quarter hour or part quarter hour spent	6 per quarter hour or part quarter hour spent
Additional administrative fee for production of invoices for additional visits or connected activities	7 per invoice	13 per invoice

<i>Colofn 1</i> <i>Gweithgaredd</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019</i>	<i>Column 1</i> <i>Activity</i>	<i>Column 2</i> <i>Fee (£) up to and including 30 June 2019</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£) after 30 June 2019</i>
Ystyried cais am gymeradwyaeth i weithfa rendro sy'n prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	892	1785	Consideration of an application for approval of a rendering plant processing animal by-products that includes a site visit of up to 60 minutes		892 1785
Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrawsnewid sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu gynhyrchion deilliedig yn gompost, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	475	951	Consideration of an application for approval of an establishment or plant carrying out the transformation of animal by-products and/or derived products into compost that includes a site visit of up to 60 minutes		475 951
Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrawsnewid sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu gynhyrchion deilliedig yn fio-nwy, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	475	951	Consideration of an application for approval of an establishment or plant carrying out the transformation of animal by-products and/or derived products into biogas that includes a site visit of up to 60 minutes		475 951
Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â thrin sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar ôl eu casglu, drwy weithrediadau megis didoli, torri, oeri, rhewi, halltu, tynnu crwyn neu dynnu deunydd risg penodedig, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	242	485	Consideration of an application for approval of an establishment or plant carrying out the handling of animal by-products after their collection, by way of operations such as sorting, cutting, chilling, freezing, salting, removal of hides and skins or of specified risk material that includes a site visit of up to 60 minutes		242 485
Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n ymgymryd â storio sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion deilliedig, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	242	485	Consideration of an application for approval of an establishment or plant carrying out the storage of animal by-products or derived products that includes a site visit of up to 60 minutes		242 485
Ystyried cais am gymeradwyaeth i sefydliad neu weithfa sy'n gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	198	395	Consideration of an application for approval of an establishment or plant manufacturing pet food that includes a site visit up to 60 minutes		198 395
Ystyried cais am gymeradwyaeth i weithfa losgi, sy'n cynnwys ymweliad safle o hyd at 60 munud	198	395	Consideration of an application for approval of an incinerator plant that includes a site visit of up to 60 minutes		198 395

Tabl 2

Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr sefydliad neu weithfa am ymweliadau safle o dan Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE

<i>Colofn 1</i> <i>Gweithgaredd</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019</i>
Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 126
Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn teithio i fangre ac oddi yno at ddiben y gweithgareddau yn y Tabl hwn	14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84	14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 84
Yr amser a dreulir gan swyddog milfeddygol at ddiben ymweliadau safle sy'n para mwy na 30 munud	8 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) at ddiben ymweliadau safle sy'n para mwy na 30 munud	4 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	8 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
Yr amser a dreulir gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru (ac eithrio swyddog milfeddygol) yn trefnu ymweliadau safle ac yn ymdrin ag unrhyw bwyntiau gweithredu sy'n codi o'r ymweliad	3 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir	6 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir
Cynnal 30 munud cyntaf arolygiad blynyddol neu ddwyflynyddol o sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd sy'n ofynnol o dan Reoliad Rheolaeth yr UE	78 am bob ymweliad	157 am bob ymweliad

Table 2

Fees payable by the operator of an establishment or plant for site visits under Article 45 of the EU Control Regulation

<i>Column 1</i> <i>Activity</i>	<i>Column 2</i> <i>Fee (£) up to and including 30 June 2019</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£) after 30 June 2019</i>
Time spent by a veterinary officer travelling to and from premises for the purpose of activities in this Table	21 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 126	21 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 126
Time spent by an officer of the Welsh Ministers (other than a veterinary officer) travelling to and from premises for the purpose of activities in this Table	14 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 84	14 per quarter hour or part quarter hour spent up to a maximum of 84
Time spent by a veterinary officer for the purpose of site visits that last longer than 30 minutes	8 per quarter hour or part quarter hour spent	16 per quarter hour or part quarter hour spent
Time spent by an officer of the Welsh Ministers (other than a veterinary officer) for the purpose of site visits that last longer than 30 minutes	4 per quarter hour or part quarter hour spent	8 per quarter hour or part quarter hour spent
Time spent organising site visits and dealing with any action points arising from the visit by an officer of the Welsh Ministers (other than a veterinary officer)	3 per quarter hour or part quarter hour spent	6 per quarter hour or part quarter hour spent
Carrying out the first 30 minutes of an annual or biennial inspection of an approved or registered establishment or plant required under the EU Control Regulation	78 per visit	157 per visit

<i>Colofn 1</i> <i>Gweithgaredd</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Ffi (£) hyd at a chan gynnwys 30 Mehefin 2019</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£) ar ôl 30 Mehefin 2019</i>	<i>Column 1</i> <i>Activity</i>	<i>Column 2</i> <i>Fee (£) up to and including 30 June 2019</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£) after 30 June 2019</i>
Ffi flynyddol am gynnal 30 munud cyntaf pob un o bedwar ymweliad safle er mwyn arolygu sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd pan fo arolygiad chwarterol yn ofynnol o dan Reoliad Rheolaeth yr UE	281 y flwyddyn	561 y flwyddyn	Annual fee for carrying out the first 30 minutes of each of four site visits to inspect an approved or registered establishment or plant where quarterly inspection is required under the EU Control Regulation	281 per year	561 per year
Ffi flynyddol am gynnal 30 munud cyntaf pob un o ddeuddeg ymweliad safle er mwyn arolygu sefydliad neu weithfa a gymeradwywyd neu a gofrestrwyd pan fo ymweliadau arolygu misol yn ofynnol o dan Reoliad Rheolaeth yr UE	829 y flwyddyn	1658 y flwyddyn	Annual fee for carrying out the first 30 minutes of each of twelve site visits to inspect an approved or registered establishment or plant where monthly inspection visits are required under the EU Control Regulation	829 per year	1658 per year

© Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.00

W201805251002 06/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/646>

ISBN 978-0-348-20245-8



9 780348 202458